Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

# Codi Tâl am Ofal a Chymorth Preswyl

# Canllaw i Asesiad Ariannol a Thaliadau

# 2024-2025

# Cyflwyniad

Mae'r llyfryn hwn yn esbonio sut y gallech chi fod yn gymwys i gael help tuag at y costau o symud i mewn i gartref preswyl neu nyrsio. Mae Deddfwriaeth Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru yn nodi'r hyn sydd angen inni ei ystyried pan fyddwn yn asesu eich gallu i dalu ffioedd cartrefi gofal. Er mwyn sicrhau bod y taliadau a wnawn yn deg, rydym yn defnyddio polisi codi tâl, sy'n seiliedig ar ddarpariaethau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 - https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/4/contents/enacted gan gynnwys;

- Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) 2015 - http://www.legislation.gov.uk/wsi/2015/1843/pdfs/wsi_20151843_mi.pdf

- Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiad Ariannol) (Cymru) 2015 - http://www.legislation.gov.uk/wsi/2015/1844/pdfs/wsi_20151844_mi.pdf

- Cod Ymarfer Rhan 4 a 5 (Codi Ffioedd ac Asesiadau Ariannol) – https://llyw.cymru/cod-ymarfer-ar-godi-ffioedd-am-wasanaethau-gofal-cymdeithasol

| **Cynnwys** | | **Tudalen** |
|---|---|---|
| **1.** | **Pa wasanaethau gofal a chymorth preswyl y mae'r Cyngor yn codi tâl amdanynt?** | **2 – 3** |
| **2.** | **Beth yw Asesiad Ariannol?** | **3 – 4** |
| **3.** | **Beth mae Asesiad Ariannol yn ei gynnwys?** | **4 – 7** |
| **4.** | **A allaf i gael gwared ar fy asedau o gwbl?** | **8** |
| **5.** | **A oes angen imi ddweud wrthych chi am unrhyw newid?** | **8** |
| **6.** | **Sut mae talu?** | **8 – 9** |
| **7.** | **Os ydych chi'n credu bod eich Asesiad Ariannol chi'n anghywir.** | **9** |
| **8.** | **Manylion cyswllt y Tîm Asesu Ariannol.** | **9** |
| **9.** | **Beth os wyf yn anfodlon â'r gwasanaeth neu os wyf am wneud cwyn?** | **9 – 10** |
| **10.** | **Gyda phwy ddylwn i gysylltu i drafod fy anghenion gofal a chymorth?..** | **10** |
| **11.** | **Manylion cyswllt defnyddiol eraill.** | **10** |
| **12.** | **Y terfyn cyfalaf perthnasol ar gyfer y flwyddyn ariannol.** | **10** |
| **13.** | **Codi Tâl am Ofal a Chymorth.** | **11 – 12** |
| **14.** | **Yr Isafswm Incwm.** | **12 – 13** |

# 1. Pa wasanaethau gofal a chymorth preswyl y mae'r Cyngor yn codi tâl amdanynt?

- Mae'r Cyngor yn adolygu'r gwasanaethau y mae'n codi amdanynt yn gyfnodol, ac yn adolygu'r tâl am bob gwasanaeth yn flynyddol, o leiaf.

- Mae rhai pobl yn talu'n llawn am y gwasanaethau, nid yw rhai yn talu dim a bydd eraill yn talu rhywbeth.

- Bydd y gofal am ddim:

  - os ydych chi'n derbyn gwasanaethau gofal o dan Adran 117 Deddf Iechyd Meddwl 1983;
  - os ydych chi'n oedolyn sydd wedi cael diagnosis o Afiechyd Creutzfeldt-Jacob;
  - os ydych yn cael eich rhoi mewn Gwely Gofal Dros Dro;
  - neu os yw eich gwasanaethau'n cael eu hariannu drwy Ofal Iechyd Parhaus gan y Bwrdd Iechyd Lleol.

- Mae'n werth nodi nad oes neb yn talu mwy na chost lawn y lleoliad preswyl / nyrsio.

## 1.1 Y Taliadau Gofal a Chymorth Preswyl sy’n destun Asesiad Ariannol

- Mae’r gwasanaethau preswyl a restrir isod yn destun asesiad ariannol (prawf modd) a fydd yn pennu’r swm y gall unigolyn fforddio ei dalu’n rhesymol:

  - Arosiadau tymor byr (sy’n annhebygol o fod yn fwy nag 8 wythnos ar ddechrau’r arhosiad neu’r gofal) a gofal seibiant (heb fod yn fwy na 6 wythnos ar ddechrau’r arhosiad neu’r gofal) **neu** Daliadau Uniongyrchol yn lle’r gwasanaethau hyn – gweler y daflen “Codi Tâl am Ofal a Chymorth Amhreswyl – Canllaw i Asesiad Ariannol a Thaliadau” am fwy o wybodaeth.

  - Arosiadau dros dro (lle rhagwelir y byddwch yn medru dychwelyd i’ch cartref eich hunan rywbryd yn y dyfodol ac y bydd eich arhosiad dros dro yn debygol o fod yn fwy na 8 wythnos; gallai fod yn llai ond gallai bara am hyd at 52 wythnos).

  - Arosiadau parhaol (lle rhagwelir y byddwch yn breswylydd am gyfnod amhenodol pan gewch eich derbyn)

  - Arosiadau mewn Coleg Preswyl (lle caiff ei nodi fel rhan o’r cynllun gofal a chymorth bod angen lleoliad preswyl ar oedolion ifanc sydd ag anableddau er mwyn diwallu’r anghenion a nodwyd am gyfnod cyfyngedig o amser).

- Os byddwch chi’n derbyn y gwasanaethau hyn, fe’ch gwahoddir i gael asesiad ariannol (prawf modd) a bydd y swm y byddwch yn ei dalu am y gwasanaethau’n dibynnu ar y math o wasanaethau y cewch eich asesu i’w derbyn yn ogystal â’r incwm a’r cyfalaf sydd gennych chi, gan gynnwys eiddo (os ydyw hynny’n briodol). Ni fydd yr asesiad ariannol ond yn ystyried eiddo/tir yng nghyswllt arosiadau preswyl dros dro a pharhaol fel yr amlinellir yn Adran 3.2.

- Bydd yr asesiad ariannol yn pennu'r union swm y bydd rhywun yn ei dalu ond mae'r tâl uchaf y byddai rhywun yn gorfod ei dalu i'w weld yn Adran 13. Mae rhai pobl yn talu llawer llai ac nid yw rhai yn gorfod talu dim am y gwasanaethau, fel yr amlinellir yn Adran 1.

  Os bydd yr asesiad yn nodi bod angen gofal nyrsio arnoch chi, bydd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn ariannu'r elfen gofal nyrsio ac ni fydd yn rhan o'r tâl a asesir.

**Mae'r taliadau sy'n destun asesiad ariannol i'w gweld yn Adran 13.**

## 2. Beth yw Asesiad Ariannol?

- Mae'r asesiad ariannol (prawf modd) yn penderfynu faint yn rhesymol y medrwch chi fforddio ei dalu am y gwasanaethau sy'n destun asesiad ariannol fel yr amlinellir yn Adran 1.1.

- Byddwn yn ysgrifennu atoch i ofyn i chi lanw ffurflen 'Datganiad o Fodd'.

- Os nad ydych chi'n delio â'ch materion ariannol eich hunan, gall y sawl sy'n gwneud hynny ar eich rhan lanw'r ffurflen drosoch chi.

- Mae gennych yr opsiwn i beidio â datgelu eich sefyllfa ariannol, ac os felly, gofynnir i chi dalu'r tâl priodol am y gwasanaeth(au) yr aseswyd sydd eu hangen arnoch, hyd at y tâl wythnosol llawn fel yr amlinellir yn Adran 13. Byddwch ystyrir ei fod yn hunan-ariannwr a bydd ffi flynyddol sefydlog fel yr amlinellir yn Adran 13.1 yn daladwy yn ychwanegol at y ffioedd gofal perthnasol.

- Mae'n bwysig nad ydych chi'n talu mwy nag y dylech chi. O fwrw golwg dros eich sefyllfa ariannol gallwn wneud yn siŵr bod eich tâl yn gywir a'ch bod chi hefyd yn cael yr holl fudd-daliadau y mae gennych hawl iddyn nhw. Gellir rhoi cyngor a chymorth i'ch helpu i hawlio unrhyw hawliad budd-daliadau'r Adran Gwaith a Phensiynau/Canolfan Byd Gwaith.

- Byddwn yn gofyn am gael gweld unrhyw ddogfennau ariannol perthnasol a bydd angen inni wneud copïau o'r dogfennau ariannol y byddwn yn eu defnyddio er mwyn sicrhau bod gennym gofnod cywir o'ch sefyllfa ariannol adeg eich asesiad ariannol. Mae gennym weithdrefnau i warchod eich preifatrwydd chi.

- Os byddwch chi'n gwneud datganiad ffug yn fwriadol ar ffurflen y 'Datganiad o Fodd' er mwyn lleihau neu osgoi atebolrwydd i dalu taliadau, neu, os na ddatgelwch chi'r amgylchiadau ariannol i gyd, gallech wynebu gorfod talu cost lawn y gwasanaeth / gwasanaethau fel y nodir yn Adran 13.

- Byddwn yn penderfynu ynghylch y swm y gallwch chi fforddio ei dalu'n rhesymol am y gwasanaethau sy'n destun asesiad ariannol cyn gynted ag y bydd gennym ddigon o wybodaeth a dogfennau i wneud hynny.

- Ar ôl inni benderfynu, byddwn yn rhoi datganiad i'r sawl a gafodd yr asesiad ariannol gan nodi'r tâl, a byddwn yn egluro sut cafodd yr asesiad ei gynnal, beth fydd y tâl a pha mor aml y caiff ei godi.

- Unwaith y bydd tâl wedi’i bennu, bydd gofyn i chi dalu’r gost o’r dyddiad y bydd y gofal a’r cymorth yn dechrau.

## 3. Beth mae Asesiad Ariannol yn ei gynnwys?

- Bydd asesiad ariannol yn cael ei gynnal ar y sawl sydd i dderbyn y gwasanaeth / gwasanaethau a asesir yn ariannol. Ni fyddwn ond yn ystyried yr incwm a'r cyfalaf, gan gynnwys eiddo (os ydyw hynny'n berthnasol) y mae gan y person hwnnw hawl iddynt. Os oes gan y person incwm, cyfalaf/buddsoddiadau ac ati ar y cyd â rhywun arall byddant yn cael eu rhannu'n gyfartal, neu ar sail hawl os yw'r cofnodion a gawn yn dangos rhywbeth gwahanol. Os yw'r budd-daliadau'n cael eu talu i 'gwpl', caiff y swm sy'n cael ei dalu i'r sawl sy'n derbyn y gwasanaeth ei ystyried fel rhan o broses yr asesiad ariannol. Mewn rhai amgylchiadau, gallwn ni asesu incwm cwpl ond dim ond os yw hynny'n fwy manteisiol yn ariannol i'r sawl sy'n cael ei asesu.

- Os oes rhywun arall yn byw gyda chi yn yr un cyfeiriad, bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau na fydd incwm yr aelwyd yn mynd yn llai na'r lefel benodol sydd wedi ei gosod gan Lywodraeth Cymru.  Byddai asesiad ariannol ar gyfer y person arall/y rhai eraill sy'n byw yn y tŷ yn cael ei gynnig a gallai hynny arwain at leihau'r tâl i'r sawl sy'n derbyn y gwasanaeth.

## 3.1 Cyfalaf

- Mae Llywodraeth Cymru'n gosod terfyn cyfalaf perthnasol bob mis Ebrill fel yr amlinellir yn Adran 12. Os yw eich asedau chi, gan gynnwys cynilion, cyfrifon cyfredol, buddsoddiadau ac eiddo (os ydyw'n berthnasol) yn uwch na'r terfyn hwnnw, bydd yn rhaid i chi dalu'r ffi wythnosol llawn fel y nodir yn Adran 13.

- Os oes gennych asedion sy'n uwch na'r terfyn cyfalaf fel yr amlinellir yn Adran 12 fe'ch ystyrir yn hunan-ariannwr a gallwch gontractio'n uniongyrchol ag unrhyw gartref gofal o'ch dewis. Os byddwch yn gofyn i’r Awdurdod Lleol gontractio ar eich rhan, yna bydd ffi flynyddol sefydlog fel yr amlinellir yn Adran 13.1 yn daladwy yn ychwanegol at y ffioedd gofal perthnasol. Mae'n bwysig nodi, o dan yr amgylchiadau hyn, fod y ffi gofal perthnasol yr un fath p'un a ydych yn contractio'n uniongyrchol â'r cartref gofal priodol neu'n gofyn i'r Awdurdod Lleol gontractio ar eich rhan.

- Os oes gennych chi asedau sydd o **dan** y terfyn cyfalaf fel yr amlinellir yn Adran 12, bydd yr Awdurdod Lleol yn trefnu eich lleoliad. Os ydych chi’n dewis cartref gofal neu ystafell sy’n costio mwy na’r hyn y byddai Awdurdod Lleol fel rheol yn disgwyl talu am lety o’r math hwnnw, rhaid i drydydd parti lofnodi cytundeb i dalu’r gwahaniaeth yn y gost neu’r **gost ychwanegol** ar gyfer y cyfnod dan sylw.

**Bydd y taliad gan drydydd parti ar gyfer y gost ychwanegol ar ben y tâl a godir arnoch ar gyfer eich lleoliad yn dilyn y prawf modd.**

- Mae’n bosibl y bydd rhai mathau o gyfalaf wedi’u heithrio wrth benderfynu faint o gyfalaf sydd gennych. Am ragor o wybodaeth ynglŷn â hyn, cysylltwch â’r Tîm Asesu Ariannol (gweler y manylion cyswllt yn Adran 8).

- Os yw eich cyfalaf chi o dan y terfyn, caiff ei ddiystyru yn yr asesiad ariannol a bydd y tâl a gaiff ei asesu'n dibynnu ar eich incwm a'ch treuliau/lwfansau chi yn unig fel y nodir yn Adrannau 3.3 - 3.5.

- O dan rai amgylchiadau efallai yr ystyrir bod gennych chi gyfalaf er nad oes gennych chi ddim mewn gwirionedd. Yr enw ar hynny yw cyfalaf tybiannol ac mae'n gallu cynnwys cyfalaf:

  - a fyddai ar gael i chi petaech chi'n gwneud cais amdano;
  - sy'n cael ei dalu i rywun arall ar eich rhan chi;
  - yr ydych chi wedi cael eich amddifadu eich hun ohono er mwyn lleihau'r swm y mae'n rhaid i chi ei dalu am eich gofal a'ch cymorth (gweler Adran 4).

- Felly eich cyfalaf chi, at ddibenion yr asesiad ariannol, yw cyfanswm y cyfalaf gwirioneddol a'r cyfalaf tybiannol. Fodd bynnag, os yw eich cyfalaf gwirioneddol yn uwch na'r terfyn cyfalaf, efallai na fydd angen ystyried eich cyfalaf tybiannol.

## 3.2 Eiddo

- At ddibenion yr asesiad ariannol, gall eiddo gynnwys tir, tŷ, siop, carafán, fflat, ac ati yr ydych chi'n berchen arnynt neu'n berchen arnynt yn rhannol.

- **Os yw'ch arhosiad yn un dros dro**, ni fydd gwerth eich prif breswylfa yn cael ei ystyried cyn belled â'i fod yn parhau'n arhosiad dros dro, hyd at uchafswm o 52 wythnos. Fodd bynnag, os ydych chi'n berchen ar eiddo / tir arall, bydd gwerth yr ased hwn yn cael ei gynnwys yn yr asesiad ariannol o ddiwrnod cyntaf eich arhosiad.

- **Os yw'ch arhosiad yn un parhaol**, ni fydd gwerth eich prif breswylfa yn cael ei ystyried am y 12 wythnos gyntaf, ar ôl i chi gael eich derbyn i gael gofal. Fodd bynnag, os byddech yn gwerthu eich eiddo yn ystod y 12 wythnos gyntaf, byddai'r swm a wneir o werthu'r eiddo yn cael ei ystyried o ddyddiad y gwerthu.

- Os ydych chi'n berchen ar dir, bydd gwerth y tir yn cael ei gynnwys o'r diwrnod cyntaf y byddwch chi'n cael eich derbyn i'r cartref gofal, boed hynny am arhosiad parhaol neu arhosiad dros dro.

- Byddwn yn trefnu bod eich eiddo yn cael ei brisio at ddibenion asesu ariannol.

- Ni chaiff gwerth eich tŷ ei ystyried o gwbl os mai'r tŷ hefyd yw prif breswylfa unrhyw un o'r bobl ganlynol: Cyfeiriwch at Rannau 4 a 5 o'r Cod Ymarfer ar gyfer diffiniad o 'perthynas'.

  - Eich partner (mae hyn yn golygu gŵr, gwraig, partner sifil neu rywun yr ydych chi'n byw gyda nhw fel gŵr / gwraig neu bartner)
  - Perthynas sy'n 60 oed neu'n hŷn
  - Perthynas sy'n analluog (mae hyn yn golygu eu bod yn derbyn budd-daliadau anabledd neu y gallent fod yn eu derbyn)
  - Plentyn sydd o dan 18 oed
  - Gofalwr sydd wedi rhoi'r gorau i'w gartref ei hun i ofalu amdanoch chi

- ➢ Rhiant unigol gyda phlentyn dibynnol, os ydyw wedi ysgaru'r preswylydd neu fod y rhiant a'r preswylydd wedi gwahanu
- ➢ Perthynas nad yw'n berchen ar gartref arall ac a oedd yn byw gyda chi cyn i chi symud i fyw mewn cartref gofal

- Os yw gwerth eich tŷ wedi cael ei ddiystyru oherwydd bod rhywun arall yn byw yno, a bod y person hwnnw wedyn yn symud allan neu'n marw, bydd gwerth y tŷ fel arfer yn cael ei ystyried o'r dyddiad y maent yn gadael yr eiddo.

- Os yw rhywun yn berchen ar eich eiddo ar y cyd â chi, byddem yn archwilio dogfennau i gadarnhau hyn ac ni fyddem ond yn ystyried gwerth eich cyfran chi yn yr asesiad ariannol.

- Os trosglwyddwyd eich eiddo i rywun arall, byddwn fel rheol yn gofyn ichi ddarparu gwybodaeth sy'n ymwneud â thelerau'r trosglwyddiad. Efallai y byddwn hefyd yn ymgynghori â'n hadran gyfreithiol er mwyn cael penderfyniad ynghylch a fydd dal angen i chi gynnwys eich eiddo yn eich asesiad ariannol fel cyfalaf tybiannol fel yr amlinellir yn 3.1.

- Os ydych chi'n berchen ar eich eiddo, gallwch benderfynu a ddylid ei werthu ai peidio. Os yw eich cynilion, eich buddsoddiadau a'ch cyfalaf arall yn llai na'r terfyn cyfalaf fel yr amlinellwyd yn Adran 12, cewch gynnig Taliad Gohiriedig (gweler y Daflen 'Beth yw'r Cynllun Taliadau Gohiriedig?').

- Mae cytuno i Daliad Gohiriedig yn caniatáu i chi beidio â thalu cyfran o'ch tâl tan yn ddiweddarach. Byddem yn disgwyl i chi gyfrannu unrhyw incwm sydd ar gael a gewch, a'r diffyg wedyn rhwng eich incwm sydd ar gael a chost lawn y lleoliad fydd y swm sy'n cael ei ohirio.

- Bydd yn rhaid i chi neu'ch ystâd dalu'r ddyled hon (y tâl gohiriedig) pan fyddwch chi'n gwerthu eich cartref neu'n gadael gofal preswyl. Bydd yr awdurdod yn codi llog tra bo'r taliadau'n cael eu gohirio. Codir tâl gweinyddu blynyddol o ran y Taliad Gohiriedig sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth hwn fel yr amlinellir yn Adran 13.2.

- Os ydych chi'n dymuno gohirio'ch taliadau, bydd gofyn ichi lofnodi cytundeb cyfreithiol ysgrifenedig gyda'r awdurdod.

- Bydd yr Awdurdod Lleol yn rhoi "Pridiant Cyfreithiol" ar yr eiddo hyd nes y bydd wedi'i werthu. Mae hyn yn golygu y gallwn adennill y swm sy'n ddyledus i ni o'r arian a gewch yn y dyfodol pan fyddwch yn penderfynu gwerthu eich eiddo.

## 3.3 Incwm

- Yn y rhan fwyaf o achosion bydd eich holl incwm o bob ffynhonnell, gan gynnwys budd-daliadau lles yn cael ei gynnwys yn yr asesiad ariannol. O dan rai amgylchiadau efallai y bydd angen diystyru rhai elfennau o'ch incwm chi, neu, ddefnyddio lwfansau, er mwyn lleihau'r incwm a gaiff ei gynnwys yn yr asesiad ariannol fel y nodir yn Adran 3.4 a 3.5.

- O dan rai amgylchiadau efallai yr ystyrir bod gennych chi incwm er nad oes gennych chi ddim mewn gwirionedd. Yr enw ar hynny yw incwm tybiannol ac mae'n gallu cynnwys incwm, er enghraifft:

  - a fyddai ar gael i chi petaech chi'n gwneud cais amdano;
  - sy'n ddyledus i chi ond nad ydych chi wedi ei gael eto;
  - yr ydych chi wedi eich amddifadu eich hun ohono er mwyn lleihau'r swm y mae'n rhaid i chi ei dalu am eich gofal a'ch cymorth (cyfeiriwch at Adran 4).

- Felly, eich incwm chi, at ddibenion yr asesiad ariannol, yw cyfanswm yr incwm gwirioneddol a'r incwm tybiannol.

## 3.4 Enillion

- Drwyddi draw, caiff enillion cyflogaeth a hunangyflogaeth yn unol â diffiniad Rheoliadau Llywodraeth Cymru, eu diystyru yn yr asesiad ariannol.

## 3.5 Lwfansau a Diystyrion

- O fewn asesiad ariannol, mae yna bob amser swm o arian nad oes modd inni ei gynnwys. Caiff hyn ei adnabod fel yr Isafswm Incwm fel yr amlinellir yn Adran 14. Mae'r ffigwr yn cael ei osod gan Lywodraeth Cymru a chaiff ei adolygu'n flynyddol.

- Mae'r rhestr isod yn dangos y prif lwfansau a diystyrion sydd yn gymwys:-

  - Unrhyw enillion cyflogaeth
  - Lwfans Gofalwr
  - Budd-dal Plant
  - Taliadau Bonws adeg y Nadolig
  - Treth y Cyngor
  - Credyd Treth i Bobl Anabl
  - Treth Incwm ac Yswiriant Gwladol
  - Elfen Symudedd y Lwfans Byw i'r Anabl a'r Taliad Annibyniaeth Bersonol (yn hytrach na'r elfen ofal), Atodiad Symudedd y Pensiwn Rhyfel
  - Treuliau a delir yn y gwaith
  - Taliadau am Niwed trwy Frechiad a Thalidomide ynghyd â’r cynllun gwaed cymeradwy sy’n gysylltiedig â thaliadau iawndal o ran cynhyrchion gwaed halogedig
  - Rhent / morgais
  - £10.00 cyntaf Pensiwn Rhyfel Gŵr Gweddw/Gwraig Weddw, Taliadau Incwm Gwarantedig goroeswyr Cynllun Iawndal y Lluoedd Arfog, pensiwn Anafiadau Rhyfel Sifiliaid, taliadau i ddioddefwyr erledigaeth Sosialwyr Cenedlaethol a Thaliadau i Gyn-garcharorion Rhyfel y Dwyrain Pell
  - Taliadau Arbennig Gweddwon Rhyfel
  - Taliadau tanwydd y gaeaf
  - Credyd Treth i Deuluoedd sy'n Gweithio
  - Pensiwn Anabledd Rhyfel wedi'i ddiystyru'n llwyr
  - Hyd at £5.75 cyntaf neu £8.60 cyntaf (cyplau) y Credyd Cynilion

## 4. A allaf i gael gwared ar fy asedau o gwbl?

- Os byddwch chi'n cael gwared ar gynilion, arian neu asedau eraill neu'n gwerthu eiddo am lai na'i werth ar y farchnad cyn derbyn gofal a chymorth, neu wrth i chi dderbyn gofal a chymorth, efallai y byddwn yn eich asesu chi fel petai gwerth llawn yr ased gennych chi o hyd. Gallai'r sawl sy'n cael budd ddod yn atebol am unrhyw daliadau na fydd wedi'u talu.

- Byddwn yn gofyn i chi am amseriad y trosglwyddiad, y rheswm drosto, y derbynnydd a'i werth ariannol a byddwn yn defnyddio'r wybodaeth honno i benderfynu a fydd yr ased yn cael ei gynnwys neu ei ddiystyru o'r asesiad ariannol.

## 5. A oes angen imi ddweud wrthych chi am unrhyw newid?

- Rhowch wybod inni ar unwaith:

  - os bydd eich budd-daliadau/eich incwm yn cynyddu neu'n lleihau
  - os cewch chi unrhyw fudd-daliadau/incwm newydd
  - os cewch chi etifeddiaeth neu unrhyw drosglwyddiad arall
  - os bydd eich arbedion/cyfalaf yn mynd uwchlaw neu islaw i'r terfyn cyfalaf perthnasol fel y nodir yn Adran 12
  - os ewch chi i gostau newydd neu gostau ychwanegol o ganlyniad i newid yn eich anghenion chi am ofal a chymorth.

- Os ydych mewn Cartref Gofal ar sail dros dro neu barhaol a'ch bod yn cael eich derbyn i'r ysbyty, rydym fel arfer yn cadw'ch lleoliad ar gael hyd nes y penderfynir nad oes ei angen bellach, neu nad yw bellach yn addas i ddiwallu eich anghenion yn y dyfodol.

  **Yn ystod yr amser y byddwch yn yr ysbyty, codir tâl arnoch o hyd am eich lleoliad hyd nes y gwneir penderfyniad.**

- Yn dilyn eich asesiad ariannol ar gyfer gofal a chymorth dibreswyl, byddwch yn gorfod talu hyd at a chan gynnwys y diwrnod y mae eich lleoliad yn dod i ben yn barhaol.

## 6. Sut mae talu?

- Mae 'na wahaniaethau yn y ffyrdd yr ydych yn talu eich tâl sydd yn dibynnu a yw'r gwasanaethau dderbyniwch yn cael eu trefnu neu'u darparu gan y Cyngor neu drwy daliadau uniongyrchol.

- Os ydych chi'n cael gwasanaethau trwy daliadau uniongyrchol yn lle Gofal Seibiant / Tymor Byr, bydd unrhyw dâl sydd angen i chi ei dalu ar ôl yr asesiad ariannol yn cael ei leihau o'r swm y bydd y Cyngor yn ei dalu i chi bob 4 wythnos. Bydd gofyn i chi dalu eich cyfraniad i gyfrif banc a fydd wedi'i sefydlu'n benodol i reoli eich taliadau uniongyrchol bob 4 wythnos.

- Ar gyfer y gwasanaethau mae'r Cyngor yn eu trefnu neu'n eu darparu, byddwn yn anfon anfoneb atoch chi bob 4 wythnos ar ffurf ôl-daliadau drwy'r post, neu'n electronig drwy e-bost os dyna yw eich dewis.

- Mae'n well gennym dderbyn taliadau trwy Ddebyd Uniongyrchol. Byddwn yn anfon ffurflen Debyd Uniongyrchol atoch chi i'w llanw ynghyd â datganiad o'r tâl yn sgil penderfyniad yr asesiad ariannol.

- Mae ffyrdd eraill o dalu wedi eu nodi ar gefn yr anfoneb gan gynnwys talu gydag arian parod yn y swyddfa daliadau leol, talu â siec a thalu ar-lein ar www.ceredigion.gov.uk

## 7. Os ydych chi'n credu bod eich Asesiad Ariannol chi'n anghywir

- Os ydych chi'n credu bod eich tâl chi wedi ei asesu'n anghywir, cysylltwch â'r Tîm Asesu Ariannol (mae'r manylion cyswllt i'w gweld yn Adran 8).

- Bydd Swyddog yn adolygu eich asesiad er mwyn cadarnhau bod yr holl ffigurau'n gywir ac nad oes dim gwybodaeth berthnasol ar goll. Os byddwch chi'n dal yn anfodlon â'r canlyniad, gallwch ofyn i'r rheolwr gynnal adolygiad ffurfiol.

- Gallwch chi hefyd ofyn i rywun sy'n annibynnol ar y Cyngor fwrw golwg dros y cyfrifiadau, er enghraifft, Cyngor ar Bopeth drwy ffonio 03444 772 020.

## 8. Manylion Cyswllt y Tîm Asesu Ariannol

Os ydych chi'n dymuno cysylltu â'r Cyngor ynglŷn â'ch taliadau, gallwch ysgrifennu at:

Y Tîm Asesu Ariannol,
Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael,
Canolfan Rheidol,
Aberystwyth,
Ceredigion, SY23 3UE
Ffôn: 01545 572612 neu 01545 572683
E-bost: dss.assessments@ceredigion.gov.uk

## 9. Beth os wyf yn anfodlon â'r gwasanaeth neu os wyf am wneud cwyn?

- Er bod gan y rhan fwyaf o bobl brofiad cadarnhaol iawn o'r prosesau sy'n ymwneud ag asesiadau gofal, derbyn gwasanaethau gofal a chymorth a'r asesiad ariannol, weithiau gall hyn fod yn gymhleth.

- Os ydych chi'n anfodlon â'n gwasanaethau ni neu'n anfodlon â’r ffordd y cawsoch chi eich trin, mae gennych hawl i gwyno. Gallwch wneud hynny drwy gysylltu â'n Tîm Gwybodaeth a Chwynion. Ni fyddwch chi'n colli gwasanaethau o ganlyniad i wneud cwyn.

- Gallwch chi gysylltu â'r Tîm Gwybodaeth a Chwynion yn y ffyrdd canlynol:

  - Dros y ffôn ar 01545 574151
  - Ar e-bost complaints@ceredigion.gov.uk

## 10. Gyda phwy ddylwn i gysylltu i drafod fy anghenion gofal a chymorth?

- Dylech ffonio 01545 574000 neu’ch Gweithiwr Cymdeithasol, os oes gennych chi un.

## 11. Manylion cyswllt defnyddiol eraill:

| | |
|---|---|
| Age Cymru Ceredigion- Y Gogledd | 01970 615151 |
| Age Cymru Ceredigion – Y De | 01239 615777 |
| Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru | 0300 7900126 |
| Gwasanaeth Gwybodaeth y Gofalwyr | 01970 633564 |
| Cyngor ar Bopeth | 03444 772 020 |
| *Independent Age* | 0800 3196 789 |
| Yr Adran Gwaith a Phensiynau | 0800 882 200 |
| Canolfan Byd Gwaith | 0800 055 6688 |

## 12. Y Terfyn Cyfalaf Perthnasol yn 2024/2025 ar gyfer Gofal a Chymorth Preswyl Dros Dro a Pharhaol (a osodir gan Lywodraeth Cymru):

- £50,000.00 – nid yw cyfalaf sy'n is na'r terfyn hwn yn cael ei gynnwys yn yr asesiad ariannol.

# 13. Codi Tâl am Ofal a Chymorth Preswyl

| | | |
|---|---|---|
| **Arosiadau tymor byr (hyd at 8 wythnos) a gofal seibiant (hyd at 6 wythnos) neu Daliadau Uniongyrchol yn lle'r gwasanaethau hyn** | Sylwer bod taliadau'n berthnasol ar gyfer unrhyw Wasanaethau Dibreswyl a dderbynnir o ddydd Llun i nos Sul yn gynhwysol. Os yw person mewn lleoliad seibiant neu leoliad tymor byr am 1 noson yn unig, ni fydd uchafswm ei gyfraniad yn fwy na'r tâl a aseswyd ganddo. Nid cap pro-rata yw uchafswm y cap wythnosol o £100.00.<br><br>Y tâl a godir fesul noson **sy'n amodol ar Asesiad Ariannol** a'r tâl wythnosol uchaf sy'n cael ei osod gan Lywodraeth Cymru. Gweler y daflen Gwasanaethau Cymdeithasol Amhreswyl - Canllaw i Asesu Ariannol a Thaliadau am fwy o wybodaeth.<br><br>*****_Mae'n bosibl y bydd y tâl y noson yn cael ei newid tra'n aros am ganlyniad ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Godi Tâl am Ofal a Chymorth Dibreswyl, sy'n dod i ben ar 13/05/24. (https://www.llyw.cymru/codir-uchafswm-tal-wythnosol-ar-gyfer-gofal-chymorth-amhreswyl-i-oedolion)_ | **£100.00*** |
| **Tâl am lety preswyl yng nghartrefi'r awdurdod lleol o ran arosiadau Parhaol a Dros Dro (hyd at 52 wythnos)** | Tâl Safonol Wythnosol<br>**sy'n amodol ar Asesiad Ariannol**<br><br>• Preswyl – Pobl Hŷn Dibynnol Iawn<br><br>• Preswyl - Dementia | <br><br><br>**£896.00**<br><br>**£958.00** |

| | | |
|---|---|---|
| **Y ffioedd a delir gan Gyngor Sir Ceredigion i Gartrefi Gofal y Sector Annibynnol o ran lleoliadau Parhaol a Dros Dro (hyd at 52 wythnos) ar gyfer pobl nad ydynt yn talu'r gost lawn.**<br><br>**Os yw'r asesiad ariannol yn nodi bod angen i chi dalu'r gost lawn, bydd gofyn i chi dalu'r ffi breifat lawn a osodir gan y Cartref Gofal hwnnw (d.s. gallai hyn fod yn uwch na'r ffi a delir gan Gyngor Sir Ceredigion).** | Tâl Wythnosol<br>**sy'n amodol ar Asesiad Ariannol**<br><br>• Preswyl - Pobl Hŷn Dibynnol Iawn<br><br>• Preswyl - Dementia<br><br>• Nyrsio - Cyffredinol<br><br>• Nyrsio – Dementia | **£896.00**<br><br>**£958.00**<br><br>**£1,040.00**<br><br>**£1,040.00** |
| **Tâl am leoliadau coleg preswyl i oedolion (adeg y tymor yn unig)** | Tâl wythnosol wedi'i gapio **sy'n amodol ar Asesiad Ariannol** | **£38.00** |

## 13.1 Tâl Gweinyddu – Hunan-gyllidwyr (Lleoliadau parhaol yn unig)

| | | |
|---|---|---|
| Tâl Gweinyddu (Hunan-gyllidwyr) | Tâl y flwyddyn | **£750.00** |

## 13.2 Tâl Gweinyddu - Taliadau Gohiriedig

| | | |
|---|---|---|
| Tâl gweinyddu<br>(Taliadau Gohiriedig) | Tâl y flwyddyn | **£750.00** |

## 13.3 Prisio eiddo

Gwir gost prisio ynghyd â phris gweinyddu o £50 (os yw'n cael ei ymgymryd gan Gyngor Sir Ceredigion).

## 14. Yr Isafswm Incwm yn 2023/2024 ar gyfer Gofal a Chymorth Preswyl (a osodir gan Lywodraeth Cymru):

- **£43.90 yr wythnos*** Yn amodol ar gadarnhad gan Lywodraeth Cymru.

**Gallai'r taliadau sydd wedi'u cynnwys yn y llyfryn hwn newid. Fel arfer, mae'r newidiadau yn dod i rym ym mis Ebrill bob blwyddyn.**

**Os hoffech chi gael y daflen mewn print bras, cysylltwch â'r Tîm Asesu Ariannol ar ☎ 01545 572683 neu 01545 572612**

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Gymraeg/this document is also available in English